# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 17 Ionawr 2005

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd er mwyn cynorthwyo'r rhai y mae'r Tswnami wedi effeithio arnynt. (WAQ40822)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba wersi Cymraeg sydd ar gael i staff Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (WAQ40855)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar faint o staff dros dro sy'n cael eu cyflogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym Mharc Cathays. (WAQ40871)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar faint o staff dros dro sy'n cael eu cyflogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym Mae Caerdydd. (WAQ40872)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar faint o staff parhaol rhan-amser a llawnamser sy'n cael eu cyflogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym Mharc Cathays. (WAQ40873)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar faint o staff parhaol rhan-amser a llawnamser sy'n cael eu cyflogi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym Mae Caerdydd. (WAQ40874)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar faint y mae staff asiantaeth 'dros dro' wedi'u costio i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mhob blwyddyn ers 1999. (WAQ40875)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar faint y mae staff llawnamser a rhan-amser wedi'u costio i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mhob blwyddyn ers 1999. (WAQ40876)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt

strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru. (WAQ40820)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** A yw cofnodion ysgrifenedig yr holl arsylwadau a sgoriau, gan gynnwys y rhai a gofnodwyd ar ddalennau heblaw am dablau cofnodi'r cyfweliadau, ar gyfer pob un o'r ymgeiswyr a gyfwelwyd ar 8 Gorffennaf 2004, wedi'u rhoi i gadw gyda'r holl bapurau eraill a oedd yn ymwneud â'r broses o benodi Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg. (WAQ40781)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** Pryd, ble ac ar ba ffurflenni neu ddalennau eraill y cofnododd pob aelod o'r panel eu harsylwadau a'u sgoriau ar gyfer pob ymgeisydd yn ystod y cyfweliadau i benodi cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg. (WAQ40782)

**Owen John Thomas (Canol De Cymru):** A oedd pob aelod o'r panel wedi cael gwybod, cyn y cyfweliadau a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2004 i benodi cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg, bod arnynt gyfrifoldeb i lenwi tabl cofnodi cyfweliad pob un o'r ymgeiswyr. (WAQ40783)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ymestyn y cynllun gwirfoddol i "blismona cyflymder" sydd ym Mhentrefoelas ledled Cymru. (WAQ40843)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Mewn perthynas â datganiad y Cabinet ynglyn ag adolygiad Trafnidiaeth 2004, faint o weithwyr cartref y mae'r Gweinidog yn anelu at eu cael yng Nghymru ac erbyn pa bryd y gellir cyflawni hyn. (WAQ40823)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o farwolaethau a fu fesul blwyddyn ers 1999 yng Nghymru o ganlyniad i oryrru ar y ffyrdd. (WAQ40842)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am y cynlluniau trafnidiaeth integredig y neilltuwyd £23 miliwn ar eu cyfer o'r Setliad Grant Trafnidiaeth. (WAQ40815)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o arian a roddwyd tuag at welliannau mewn gorsafoedd rheilffyrdd (2003-4) ar gyfer gorsafoedd yng Nghymru ac eithrio'r gorsafoedd hynny yn y De a'r Canolbarth. (WAQ40817)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Ynglyn â WAQ39932, ar beth y bydd y £53 miliwn a ddyrannwyd i hyrwyddo entrepreneuriaeth (ac eithrio Grant Buddsoddiad Blynyddol) yn cael ei wario. (WAQ40816)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Ynglyn â WAQ 39946, faint o swyddi

Rheolwyr Diogelwch Cymunedol sydd i'w creu yn y Gogledd, beth fydd cost pob swydd, ble y cânt eu lleoli a phryd y gallwn ddisgwyl eu gweld yn eu lle. (WAQ40845)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Ynglyn â WAQ 39946, pa arian sydd wedi'i ddyrannu i ariannu gwelliannau mewn gorsafoedd yn y De a'r Canolbarth eleni. (WAQ40840)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Ynglyn â WAQ 39946, a yw swydd rheolwr diogelwch cymunedol ar gyfer Heddlu Trafnidiaeth Prydain i'w thynnu o'r cyllid ar gyfer gwelliannau i orsafoedd neu o'r gyllideb ar gyfer yr heddlu. (WAQ40839)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Ynglyn â WAQ 39930, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi pam nad oes arian cyfatebol ychwanegol o'r sector cyhoeddus wedi'i roi drwy'r gronfa gadw ar gyfer perfformiad. (WAQ40841)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Ynglyn â WAQ39946, ar beth y gwariwyd y £2.5 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer y De a'r Canolbarth (2003-4). (WAQ40838)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi a fydd y Grant Buddsoddiad Blynyddol y mae Bwrdd Croeso Cymru yn ei ddarparu i fudiadau yn dod i ben pan gânt eu huno â'r Llywodraeth. (WAQ40837)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y datblygiadau diweddaraf ynglyn â chynlluniau i gludo llechi ar hyd rheilffordd Dyffryn Conwy. (WAQ40836)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar drafodaethau y mae wedi'u cael â Threnau Arriva Cymru i newid ei amserlenni i gyd-fynd â First Great Western er mwyn cadw'r cyswllt ar gyfer teithwyr sy'n teithio o Lundain. (WAQ40818)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnig i brynu Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd a'i oblygiadau posibl i deithiau awyr yng Nghymru. (WAQ40835)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar pam na chynhwysodd y bwriad i ailagor y llwybr rheilffyrdd rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth yn y rhaglen drafnidiaeth 15 mlynedd a gyhoeddwyd yn ddiweddar. (WAQ40834)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd bydd Cyfnewidfa Aberaeron yn cael ei diweddaru fel y gellir derbyn gwasanaeth band eang yn yr ardal honno. (WAQ40844)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y broses o leihau anweithgarwch economaidd yng Nghymru. (WAQ40765)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** Pa wariant cyfalaf gan Awdurdod Datblygu Cymru sydd wedi'i gynllunio ar gyfer pob ardal llywodraeth leol yn rhanbarth Gorllewin De Cymru hyd at 2007. (WAQ40766)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau gwariant cyfredol Awdurdod Datblygu Cymru ar gyfer pob ardal llywodraeth leol yn rhanbarth Gorllewin De Cymru, a hynny hyd at 2007. (WAQ40767)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygu trafnidiaeth forol i gynorthwyo datblygu economaidd yng Nghymru. (WAQ40768)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bwysigrwydd yr undebau llafur o ran hybu datblygu economaidd yng Nghymru. (WAQ40769)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar fuddsoddi amcan un yn Rhymni. (WAQ40770)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gymorth cronfeydd strwythurol ar gyfer Rhymni. (WAQ40771)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y seilwaith trafnidiaeth mewn perthynas â Chwpan Ryder 2010. (WAQ40772)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff y Gweinidog roi datganiad ar unrhyw gamau a wnaed o ran y trefniadau parcio yn ardal Bae Caerdydd. (WAQ40773)

**Alun Ffred Jones (Caernarfon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith colledion swyddi yn yr Adran Gwaith a Phensiynau o fewn ardaloedd Amcan 1 yng Nghymru. (WAQ40774) **W**

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfraniad Llywodraeth y Cynulliad tuag at fwrw ymlaen ag adfywio economaidd y Rhyl. (WAQ40775)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd y bydd y Gweinidog yn cyhoeddi ei benderfyniad ynghylch llwybr newydd y gwelliannau i'r A458 i'r dwyrain o'r Trallwng (ffordd osgoi Treberfedd) (WAQ40800)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd y mae'r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi dyddiad cychwyn y gwelliannau i'r A458 i'r dwyrain o'r Trallwng (ffordd osgoi Treberfedd). (WAQ40801)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd y mae'r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi penodi ymgynghorwyr i adolygu llwybr ffordd osgoi ar gyfer y Drenewydd yn y Canolbarth. (WAQ40802)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd y mae'r Gweinidog yn disgwyl cyhoeddi dyddiad cychwyn ar gyfer llwybr y ffordd osgoi ar gyfer y Drenewydd yn y Canolbarth. (WAQ40803)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sawl Canolfan Technium sydd wedi'u datblygu gan Awdurdod Datblygu Cymru yng Nghymru a faint oedd y gost. (WAQ40811)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Ble y mae'r Canolfannau Technium sydd wedi'u datblygu gan Awdurdod Datblygu Cymru wedi'u lleoli a pha gynlluniau sydd i ddatblygu rhagor o Ganolfannau Technium. (WAQ40812)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**Pryd y bydd Band eang ar gael yn y Trallwng ac Aberriw. (WAQ40813)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**Faint o bobl sy'n cael eu cyflogi mewn Canolfannau Technium a ddatblygwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru a beth oedd y targedau cyflogi pan wnaed y penderfyniad i fynd rhagddi â'r Canolfannau Technium. (WAQ40850)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A fydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu cyflogi dinasyddion tramor yn ei swyddfeydd dros y môr ar ôl i Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru ddod i ben. (WAQ40867)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A yw'n fwriad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru barhau i gyflogi dinasyddion tramor yn ei swyddfeydd dros y môr ar ôl i Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru ddod i ben. (WAQ40869)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr effaith y bydd y rhaglen drafnidiaeth 15 mlynedd newydd yn ei chael ar wella gwasanaethau yn y Canolbarth a'r Gorllewin. (WAQ40881)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o gymorth ariannol y mae ardaloedd yn y Canolbarth a'r Gorllewin wedi'i gael o'r gyllideb bresennol. (WAQ40882)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn WAQ 39923, beth yw hynt y gwaith a wnaed ar Raglen bresennol y Grant Trafnidiaeth, ac a wnaiff y Gweinidog esbonio sut y mae'r cynnydd a gafwyd yn y grant trafnidiaeth rhwng 2004-5 a 2005-6 wedi hwyluso'r gwaith hwn. (WAQ40883)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn WAQ 39919, a fydd arian o grantiau'r cronfeydd strwythurol ar gael o hyd i Fwrdd Croeso Cymru pan fydd yn rhan o'r Llywodraeth, ac os na fydd, o ble y bydd yr arian ychwanegol newydd yn dod. (WAQ40884)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn WAQ 39918, pryd y disgwylir i'r

cymorth o raglen bresennol y cronfeydd strwythurol ddod i ben. (WAQ40885)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad sydd wedi'i wneud o'r effaith y bydd ail ddechrau tanio yn ystod y nos ym Maes Tanio Maenorby^r, ar ôl 25 mlynedd hebddo, yn ei chael ar dwristiaeth gydol y flwyddyn. (WAQ40886)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o bobl yng Nghymru sy'n gweithio o gartref ar hyn o bryd, a beth yw eu cyflog blynyddol ar gyfartaledd. (WAQ40887)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o arian a gaiff ei ddyrannu i bob awdurdod lleol yn y Canolbarth a'r Gorllewin yn 2005-06 er mwyn gwella seilwaith trafnidiaeth lleol a hyrwyddo dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy. (WAQ40888)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Ynglyn ag Adolygiad Trafnidiaeth 2004, a wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cymeradwyaethau a'r cydsyniadau a gafwyd er mwyn galluogi datblygu gwasanaethau teithiau awyr posibl yng Nghymru. (WAQ40889)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa sylwadau a gyflwynwyd i San Steffan ynglyn ag argymhelliad y Comisiwn Ewropeaidd y dylid lleihau uchafswm y lefel alcohol yn y gwaed wrth yfed a gyrru o 80 mg i 50 mg. (WAQ40891)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lwyddiant Cronfa Ddysgu Undebau Cymru. (WAQ40755)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddarparu hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain yng Nghymru. (WAQ40756)

**Lorraine Barrett (De Caerdydd a Phenarth):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gludiant ysgol. (WAQ40757)

**Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni):** Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u cymryd i ehangu addysg bellach ym Merthyr Tudful a Rhymni. (WAQ40758)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfraniad y sector gwirfoddol at addysg yng Nghymru. (WAQ40759)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddweud a oes cynlluniau ar y gweill i ganiatáu i ysgolion gwladol gorau Cymru ehangu. (WAQ40760)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ad-drefnu ysgolion uwchradd yn Nwyrain De Cymru. (WAQ40761)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyflwyno hap-brofion cyffuriau mewn ysgolion yng Nghymru. (WAQ40762)

**Lynne Neagle (Tor-faen):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella prydau ysgol yng Nghymru. (WAQ40763)

**Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ariannu dysgu yn y blynyddoedd cynnar o fewn y portffolio addysg. (WAQ40764)

**Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** Beth yw polisi Llywodraeth y Cynulliad ar wisgoedd ysgol yng Nghymru. (WAQ40776)

**Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** Ar ba safonau maeth y seilir prydau ysgol am ddim. (WAQ40777)

**Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** Pa gyllid y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei roi fel cymhorthdal tuag at wisgoedd ysgol yng Nghymru. (WAQ40778)

**Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** Pa gymorth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i roi i hybu mabolgampau ysgol. (WAQ40779)

**Sandy Mewies (Delyn):** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ystyried cynnig cymorth tuag at Bencampwriaethau Dadlau Ysgolion y Byd a gynhelir yng Nghymru yn 2006. (WAQ40780)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch gwerth y cymhorthdal sydd ar gael i ffermwyr ar gyfer tyfu cnydau biodanwydd gwahanol, ac a yw'n fwriad gan y Gweinidog adolygu gwerth taliadau cymhorthdal. (WAQ40860)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch y costau casglu i ffermwyr sydd ynghlwm â'r Cynllun Stoc Trig. (WAQ40864)

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch gwerth y cymhorthdal ariannol sydd ar gael i ffermwyr ar gyfer tyfu Miscanthus fel cnwd biodanwydd. (WAQ40865)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar pam y bydd Dwr Cymru yn cynyddu cost dwr i'w gwsmeriaid yn Aberyswyth o leiaf 14.2% ac a fydd hyn yn arwain at unrhyw welliannau yn ei wasanaethau. (WAQ40814)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y weithdrefn ar gyfer etholwyr sy'n byw yn ardal Gwynedd os ydynt yn dymuno cyflwyno cwyn ynghylch Adran Gynllunio Parc Cenedlaethol Eryri ac a oes yna awdurdod sy'n annibynnol ar Barc Cenedlaethol Eryri y gallant gyflwyno eu cwyn iddo. (WAQ40819)

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a yw'n bolisi ganddo ar hyn o bryd, neu a fydd yn bolisi ganddo yn y dyfodol, i gyflwyno "clustogfeydd" rhwng wynebau gwaith gweithfeydd glo brig a chymunedau cyfagos, yn debyg i'r glustogfa 500m sy'n bodoli ar hyn o bryd yn Yr Alban. (WAQ40788)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gamau y bydd y Gweinidog yn eu cymryd i reoli llwynogod ar dir Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar ôl i'r gwaharddiad ar hela â chwn ddod i rym ym mis Chwefror 2005. (WAQ40793)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o helfeydd a fu wrthi'n rheoli nifer y llwynogod ar dir Comisiwn Coedwigaeth Cymru y llynedd. (WAQ40794)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o arwynebedd o dir coedwigaeth a werthwyd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ym mhob un o'r deng mlynedd diwethaf. (WAQ40795)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw gwerth y tir sy'n eiddo i Gomisiwn Coedwigaeth Cymru a werthwyd ym mhob un o'r deng mlynedd diwethaf. (WAQ40796)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r targed gwerthiant fesul ardal Comisiwn Coedwigaeth Cymru ym mhob un o'r tair blynedd nesaf. (WAQ40797)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw'r targed gwerthiant fesul gwerth tir Comisiwn Coedwigaeth Cymru ym mhob un o'r tair blynedd nesaf. (WAQ40798)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):**Pa gyngor sydd ar gael i Gyngor Cefn Gwlad Cymru wrth ddiffinio ystyr y term 'covered' fel y'i defnyddiwyd yn Atodlen 1 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy wrth ddiffinio 'excepted land'. (WAQ40799)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa bwerau sydd gan y Gweinidog ar gyfer cyflwyno mesurau diogelu arbennig mewn perthynas â morfeirch trwyn bwt a phigog a llygod dwr yng Nghymru. (WAQ40806)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa swyddogaeth sydd gan y Gweinidog o ran cymeradwyo argymhellion gan y Cyd Gyngor Cadwraeth Natur ar gyfer ychwanegu at Adran 5 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. (WAQ40807)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gyllideb sydd wedi'i neilltuo gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru ar gyfer rheoli llwynogod ym mhob un o'r 3 blynedd nesaf.

(WAQ40847)

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog nodi a oes ganddi unrhyw gynlluniau i gefnogi datblygiad cyfleusterau addysg a chyfleusterau i ymwelwyr ar warchodfa Gwlyptir Casnewydd, er mwyn galluogi'r gymuned leol ac ymwelwyr â'r ardal i ddysgu ynghylch tirwedd, cynefin a bywyd gwyllt gwastadeddau Gwent a'u mwynhau. (WAQ40853)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ynghylch yr amser a gymer i brosesu ceisiadau er mwyn cael eglurhad ynglyn â hawliau tramwy. (WAQ40868)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i roi cap ar filiau'r dreth gyngor. (WAQ40859)

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** Beth yw cost casglu'r dreth gyngor yng Nghymru. (WAQ40863)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y gwaith o wella'r ddarpariaeth o wasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru. (WAQ40747)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfranoldeb gwleidyddol mewn perthynas â Chadeiryddion Pwyllgorau Craffu. (WAQ40748)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefelau'r dreth gyngor yn Ne-ddwyrain Cymru. (WAQ40749)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfansoddiad pwyllgorau craffu ym maes llywodraeth leol. (WAQ40750)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ariannu Llywodraeth Leol yng Nghymru yn y dyfodol. (WAQ40751)

**Lynne Neagle (Tor-faen):** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud er mwyn gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru eu cynllunio a'u darparu. (WAQ40752)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefel cymorth Llywodraeth y Cynulliad i Lywodraeth Leol yng Ngogledd Cymru ers y sefydlwyd y Cynulliad Cenedlaethol. (WAQ40753)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ei diwygiadau er mwyn symleiddio dulliau mesur perfformiad awdurdodau lleol yng Nghymru. (WAQ40754)

**Sandy Mewies (Delyn):** Wrth bennu'r gyllideb, sut y mae'r Gweinidog yn ystyried buddiannau plant a phobl ifanc. (WAQ40789)

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer yr aelwydydd a roddwyd yn y band anghywir yn ystod y newidiadau a wnaed yn ddiweddar wrth fandio'r Dreth Gyngor. (WAQ40851)

**Michael German (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog nodi dyraniad Cyngor Dinas Casnewydd o'r Gronfa Adfywio Lleol am y tair blynedd ariannol nesaf. (WAQ40852)

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r ymchwil ar dlodi ymhlith plant y cyfeiriwyd ato yn ei hateb i WAQ40718. (WAQ40870)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A oes gan y Gweinidog unrhyw fwriad i gyflwyno canolfannau llawdriniaethau cyflym yng Nghymru. (WAQ40866)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y plant sydd ar y cofrestri 'mewn perygl' yn Nwyrain De Cymru. (WAQ40822)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y buddsoddi a wnaed mewn canolfannau diagnostig. (WAQ40856)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am y nifer a fanteisiodd ar Gynllun yr Ail Gynnig ym mhob ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru. (WAQ40857)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i werthu unrhyw eiddo gan y GIG. (WAQ40858)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Beth yw targedau'r Gweinidog o ran lleihau MRSA. (WAQ40861)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Faint o feddygon ymgynghorol sydd ar gael yn y meysydd arbenigol a ganlyn a beth yw'r cyfraddau swyddi gwag ym mhob maes: cardioleg, seiciatreg plant a'r glasoed, radioleg glinigol, seiciatreg fforensig, seiciatreg gyffredinol, niwroleg, seiciatreg yr henoed, offthalmoleg, cardioleg bediatrig, niwroleg bediatrig, llawdriniaeth bediatrig, pediatreg, seiciatreg anabledd dysgu, seicotherapi, llawdriniaeth drawmatig ac orthopedig ac wroleg. (WAQ40862)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd y gall Bwrdd Iechyd Lleol Ceredigion ddisgwyl derbyn cyllid cyfalaf ar gyfer ariannu cost datblygu uned newydd ar gyfer clefyd coronaidd y galon yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais, Aberystwyth. (WAQ40824)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pam y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwrthod gaddo arian newydd ar gyfer rhedeg uned arfaethedig Ysbyty Cyffredinol Bronglais, Aberystwyth ar gyfer clefyd coronaidd y galon. (WAQ40825)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu'r £1 miliwn ar gyfer ariannu costau cyfalaf datblygu uned newydd ar gyfer clefyd coronaidd y galon yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais, Aberystwyth. (WAQ40826)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o arian y mae'r Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd wedi'i dderbyn gan y Cynulliad Cenedlaethol ymhob blwyddyn ers iddi gael ei chyflwyno. (WAQ40827)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch faint o arian sydd wedi'i wario ymhob blwyddyn ers 1998 ar ofal sylfaenol mewn perthynas â chlefyd coronaidd y galon. (WAQ40828)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch faint o arian sydd wedi'i wario ymhob blwyddyn ers 1998 ar ofal eilaidd mewn perthynas â chlefyd coronaidd y galon. (WAQ40829)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu faint o bobl yng Nghymru sydd wedi marw o glefyd coronaidd y galon ymhob blwyddyn ers 1998. (WAQ40830)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno rhaglenni sgrinio ar gyfer unrhyw rai y mae hanes o glefyd coronaidd y galon yn eu teulu. (WAQ40831)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nodau ac amcanion y Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd. (WAQ40832)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa brosiectau y mae'r Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd wedi'u cynorthwyo ers iddi gael ei chyflwyno. (WAQ40833)

**Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ariannu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a'r Gwasanaethau Mamolaeth. (WAQ40784)

**Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** Ers 1999, pa gyllid y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i ddarparu ar gyfer gwella gofal plant yng Nghymru. (WAQ40785)

**Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** Ers 1999, pa bolisïau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cyflwyno er mwyn gwella gofal plant yng Nghymru. (WAQ40786)

**Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy):** A all y Gweinidog wneud datganiad ar ddatblygiad polisïau gofal plant yng Nghymru yn y dyfodol. (WAQ40787)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gyngor arbenigol ynghylch budd-daliadau a gynigir i bobl sy’n dioddef o ganser pan fyddant yn derbyn diagnosis ynghylch eu salwch a pha gamau a gymerir er mwyn sicrhau bod cyngor o'r fath yn cael ei roi fel mater o drefn. (WAQ40804)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ganran o gleifion sydd â salwch terfynol sy'n hawlio 'Lwfans Byw i'r Anabl' neu 'Lwfans Gweini' ar y gyfradd uwch. (WAQ40805)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o bobl yng Nghymru y mae MRSA wedi effeithio arnynt ym mhob un o'r 5 mlynedd diwethaf. (WAQ40808)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o bobl yng Nghymru sydd wedi marw yn sgîl MRSA ym mhob un o'r 5 mlynedd diwethaf. (WAQ40809)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o bobl yng Nghymru yr effeithiodd MRSA arnynt yn 1996. (WAQ40810)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa 'reolau arbennig' sy'n bodoli sy'n galluogi i gleifion â salwch terfynol hawlio'r gyfradd uwch o 'Lwfans Byw i'r Anabl' neu 'Lwfans Gweini'. (WAQ40848)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o bobl yng Nghymru a fu farw yn sgîl MRSA yn 1996. (WAQ40849)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar swyddogaeth y sector gwirfoddol yng Nghymru. (WAQ40740)

**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt Cymunedau yn Gyntaf. (WAQ40741)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei thrafodaethau â Phrif Gwnstabliaid a'i chydweithwyr o fewn y Cabinet ynghylch dyfodol plismona yng Nghymru. (WAQ40742)

**William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Nghymru. (WAQ40743)

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y strategaeth sy'n sail i gronfa droseddau Llywodraeth y Cynulliad. (WAQ40744)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faterion tai cyfredol yn Ne-ddwyrain Cymru. (WAQ40745)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar reoleiddio Tai Amlfeddiannaeth yng Nghymru. (WAQ40746)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o bobl yng Nghymru sy'n ddigartref. (WAQ40790)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o bobl yng Nghymru oedd yn ddigartref yn ystod mis Rhagfyr, ym mhob un o'r 10 mlynedd diwethaf. (WAQ40791)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth yw cyfanswm cost blynyddol mwyaf diweddar cartrefu pobl ddigartref yng Nghymru. (WAQ40792)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Beth oedd cost cartrefu pobl ddigartref mewn llety 'gwely a brecwast' yng Nghymru ym mhob un o'r 10 mlynedd diwethaf. (WAQ40846)

## *Gofyn i Gynrychiolydd Pwyllgor y Ty*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Cynrychiolydd Pwyllgor y Ty ddatganiad ar nifer y staff dros dro sy'n cael eu cyflogi gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad ym Mae Caerdydd. (WAQ40877)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Cynrychiolydd Pwyllgor y Ty ddatganiad ar nifer y staff rhan amser ac amser llawn parhaol sy'n cael eu cyflogi gan Wasanaeth Seneddol y Cynulliad ym Mae Caerdydd. (WAQ40878)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Cynrychiolydd Pwyllgor y Ty ddatganiad ar gost staff asiantaethau 'dros dro' i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad fesul blwyddyn ers 1999. (WAQ40879)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Cynrychiolydd Pwyllgor y Ty ddatganiad ar gost staff amser llawn a rhan amser i Wasanaeth Seneddol y Cynulliad fesul blwyddyn ers 1999. (WAQ40880)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff cynrychiolydd Pwyllgor y Ty ddatganiad ynghylch pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod gwersi Cymraeg ar gael i holl staff Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad. (WAQ40890)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff cynrychiolydd Pwyllgor y Ty ddatganiad ynghylch pa wersi Cymraeg sydd ar gael i staff sy'n gweithio yn adeilad y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd. (WAQ40854)